www.nonnativespecies.org

Fersiwn 4.0. Cynhyrchwyd gan Lucy Cornwell, Olaf Booy (NNSS), Gay Marris, Mike Brown (National Bee Unit)
gyda chymorth gan Colette O'Flynn (National Biodiversity Data Centre Ireland) Stuart Roberts (BWARS)

Asian Hornet / Cacynen Asia

Cadwch lygad yn agored!

Os gwelwch y gacynen hon, rhowch wybod:
- drwy'r ap cofnodi ar gyfer iPhone ac Android: Asian Hornet Watch
- ar-lein drwy fynd i: www.nonnativespecies.org/alerts/asianhornet
- drwy e-bostio: alertnonnative@ceh.ac.uk

Disgrifiad o'r gacynen

Enw gwyddonol: *Vespa velutina*

Enw arall: Cacynen felyngoes

Yn wreiddiol o: Asia

Cynefin: Fel arfer yn nythu'n uchel yn y coed ac mewn strwythurau artiffisial, weithiau'n nes i'r ddaear; yn hela'r gwenyn mêl, pryfed eraill a hefyd yn bwydo ar ffrwythau a blodau.

Yn hawdd ei hadnabod oddi wrth gacwn a gwenyn eraill. Corff brown tywyll neu ddu melfedaidd. Abdomen tywyll a choesau gyda blaenau melyn fel arfer. Yn llai na'r Gacynen Ewropeaidd frodorol.

Wedi ei chyflwyno i Ffrainc yn 2004 cyn lledaenu'n gyflym iawn. Cofnodwyd ei gweld droeon yn y DU ers 2016. Mae'n eithaf hawdd ei chyflwyno mewn pridd wrth fewnforio planhigion er enghraifft, mewn blodau a dorrwyd, ffrwythau, eitemau i'r ardd (dodrefn, potiau planhigion), cynwysyddion llong, mewn cerbydau neu mewn / ar bren heb ei drin. Nid yw'r posibilrwydd y gallai hedfan ar draws y Sianel wedi'i ddiystyru'n llwyr.

Yn bryfyn ysglyfaeth hynod ffyrnig gan ymosod ar bryfed brodorol. Yn cyflwyno bygythiad sylweddol i wenyn mêl a phryfed peillio eraill.

Peidiwch ag aflonyddu ar nyth byw. Dylai unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n amau eu bod wedi gweld Cacynen Asia hysbysu'r peth drwy dynnu llun gan ddilyn y manylion yn y blwch coch ar ben y daflen ID hon.

David Walker

Nodweddion adnabod



David Walker

Cacynen Asia | Cacynen Ewropeaidd



Mae abdomen y Gacynen Asia'n dywyll bron i gyd heblaw am y pedwerydd segment.

J. Haxaire

Cacynen Asia *(Vespa velutina)* i bwrpas cymhariaeth

- Y frenhines yn tyfu hyd at 30mm; gweithiwr hyd at 25mm
- Blaenau'r coesau'n felyn
- Abdomen brown tywyll neu ddu a'r pedwerydd segment neu fand yn felyn / oren
- Pen tywyll o edrych i lawr arno, oren o'r blaen
- Antenae lliw tywyll
- Thoracs du melfedaidd drosto
- Byth o gwmpas wedi nos

Union faint

Q. Rome

Rhywogaethau tebyg

Cacynen Ewropeaidd *(Vespa crabro)*

- Y frenhines yn tyfu hyd at 35mm; gweithiwr hyd at 30mm
- Blaenau'r coesau'n frown
- Abdomen melyn gyda marciau brown ar yr ochr uchaf, dim bandiau
- Pen melyn o edrych i lawr arno, melyn o'r blaen
- Antenae melyn
- Thoracs du gyda chryn dipyn o farciau brown
- Gallai fod o gwmpas wedi nos

Union faint

Roger Burgess

Mia Tonge, National Bee Unit

Cacynen anferth y coed *(Urocerus gigas)*

- Yn fwy na chacynen Asia, y fenyw'n tyfu hyd at 45mm
- Coesau melyn
- Abdomen gyda bandiau melyn a du amlwg
- Corff silindrog hir yn wahanol i gacynen Asia, sydd â chanol amlwg
- Antenae melyn hir
- Y fenyw gydag atodyn hir amlwg tebyg i golyn brathu, a ddefnyddir i ddodwy wyau mewn coed

Union faint

Q. Rome

Gwenynen hofran ddu *(Volucella zonaria)*

- Abdomen gyda mwy o stribedi melyn na chacynen Asia
- Coesau mwy tywyll na chacynen Asia
- Dim ond un pâr o adenydd (mae gan wenyn meirch duon a melyn ddau bâr)
- Llygaid mawr crwn

Union faint

Didier Descouens

Alvesgaspar

Gwenynen gymdeithasol *(Dolichovespula media)*

- Mwy o liw melyn ac oren ar fandiau'r abdomen na chacynen Asia
- Marciau melyn ar y thoracs yn wahanol i gacynen Asia

Union faint



Q. Rome

Arwyddion Maes

O gwmpas Ebrill – Tachwedd (yn enwedig Awst / Medi). Ar ôl paru, mae'r frenhines yn gaeafu ar ei phen ei hun neu mewn grwpiau, mewn cynefinoedd naturiol neu artiffisial – dan risgl coed mewn tyllau wedi eu gadael gan gynrhon chwilod, mewn pridd, ar botiau planhigion seramig - yn wir unrhyw lochesi bychain, clyd. Yn gwneud nythod mawr iawn mewn coed tal yn y wlad neu'r dref, ond yn osgoi llecynnau o goed conwydd yn unig. Hefyd yn defnyddio strwythurau artiffisial (modurdai, siediau ac ati) i nythu ynddynt.



Am fwy o wybodaeth ewch i:

www.nonnativespecies.org

www.nationalbeeunit.com

Cadwch lygad yn agored!

Os gwelwch y gacynen hon, rhowch wybod:

- drwy'r ap cofnodi ar gyfer iPhone ac Android: Asian Hornet Watch
- ar-lein drwy fynd i: www.nonnativespecies.org/alerts/asianhornet
- drwy e-bostio: alertnonnative@ceh.ac.uk